**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 09:30 ddydd Iau 26 Ionawr 2017 yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

### Gweinidogion a oedd yn bresennol

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Julie James AC | Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth |
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |

### Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Amy Bainton | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Alex Bevan | TUC Cymru |
| Jean Church | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Julie Cook | TUC Cymru |
| Ben Cottam | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Heather Eason | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Ifan Glyn | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Nick Ireland | TUC Cymru |
| Leighton Jenkins | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Nigel Keane | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Lowri Morgan | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |
| David Morgan | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Heather Myers | Siambr Fasnach De Cymru |
| Lloyd Powell | Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig |
| Ian Price | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Martin Warren | Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC | Y Prif Weinidog |
| Paul Byard | EEF (Cadeirydd Commerce Cymru) |
| Ian Gallagher | Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Robert Lloyd Griffiths | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Julie-Ann Haines | Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi |
| Mark Harris | Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Mark Judd | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Huw Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Syr Derek Jones | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| James Price | |
| Tracey Burke | |
| Judith Cole | Eitem 4 ar yr agenda |
| Neil Hemington | Papur i'w nodi – Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| Huw Morris | Eitem 2 ar yr agenda |
| Mick McGuire | Papur i'w nodi – Banc Datblygu Cymru |
| Jonathan Price | |
| Jo Salway | Eitem 5 ar yr agenda |
| Gareth Williams | Eitem 3 ar yr agenda |
| Jane Anstee | Cofnodwr |
| Derek Goode | Cofnodwr |

DRAFT

**1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol**

1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yr aelodau, a chyflwynodd ymddiheuriadau ar ran y Prif Weinidog a oedd yn sâl ac a oedd yn methu â bod yn bresennol. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol cyn nodi'r pum prif eitem ar yr agenda:

- Yr Ardoll Brentisiaethau
- Pontio o ran yr UE – Diweddariad
- Diwygio Llywodraeth Leol
- Strategaethau Trawsbynciol
- Trefniadau Newydd ar gyfer y Cyngor.

1.2 Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod dau bapur i'w nodi ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Banc Datblygu Cymru.

**2. Yr Ardoll Brentisiaethau**

2.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth gyflwyno'r eitem hon a'r papur ategol.

2.2 Esboniodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth fod polisi prentisiaethau yng Nghymru yn canolbwyntio ar y prentisiaethau hynny a fydd yn hybu twf economaidd, lefelau uwch o gynhyrchiant, a symudedd cymdeithasol.

2.3 Bu'r Gweinidog yn myfyrio ynghylch y newid economaidd a thechnolegol cyflym sy'n digwydd, sef y cyd-destun y mae'n rhaid i'r dull o ymdrin â phrentisiaethau gyflawni ynddo. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon i bob oed yn ystod tymor y Cynulliad presennol.

2.4 Esboniodd y Gweinidog y cynllun polisi prentisiaethau a fydd yn cael ei gyhoeddi'r mis nesaf ac a fydd yn egluro blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn pum maes, sef:

- mynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau twf a galwedigaethau newydd;

- datblygu sgiliau lefel uwch, gan ganolbwyntio ar brentisiaethau lefel uwch, yn enwedig o ran llwybrau STEM lle mae'r elw o fuddsoddi'n tueddu i fod yn uwch;

- cynyddu nifer y bobl ifanc 16-19 oed sy'n manteisio ar brentisiaethau, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynorthwyo prentisiaid iau; a

- darparu mwy o brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

DRAFFT

2.5 Esboniodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £15 miliwn ychwanegol yn flynyddol mewn prentisiaethau. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu cyflogwyr a allai fod dan anfantais o ganlyniad i'r Ardoll Brentisiaid. Yn 2017-18, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau'n cynyddu o £96 miliwn i £111 miliwn. Pwysleisiodd y Gweinidog y bydd y cynnydd hwn yn digwydd er gwaetha'r ffaith na fydd unrhyw gyllid ychwanegol amlwg ar gael i Gymru o ganlyniad i'r ardoll.

2.6 Eglurodd y Gweinidog sut y byddai hynny'n gweithio, gan egluro'r cynigion hefyd sy'n cynnwys:

- sicrhau bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori â chyflogwyr sy'n talu'r ardoll i weld beth yw'r sgiliau y mae galw amdanynt, er mwyn penderfynu ynghylch y meysydd gorau i fuddsoddi ynddynt;

- sefydlu tîm o gynghorwyr i gynorthwyo cyflogwyr sy'n talu'r ardoll, mewn achosion lle mae'r hyfforddiant yn cyd-fynd â sectorau sy'n flaenoriaeth;

- cyhoeddi canllaw ffeithiol i'r sawl sy'n talu'r ardoll yng Nghymru, sy'n egluro'r dull gweithredu yng Nghymru a sut y gallant gael mynediad i'r rhaglen;

- mynd i'r afael â'r broblem sy'n codi yng nghyswllt cyflogwyr sy'n talu'r ardoll ac sy'n gweithredu mewn mwy nag un wlad. Os yw'r prentisiaid yn treulio o leiaf 51% o'u horiau gwaith yng Nghymru yn ystod y brentisiaeth, byddant yn gymwys i gael cyllid gan Gymru; mae hynny'n adlewyrchu'r dull gweithredu yn Lloegr;

- darparu prentisiaethau ar lefelau uwch mewn meysydd technegol a sectorau sy'n flaenoriaeth;

- cydnabod y bydd gan gyflogwyr anghenion o ran datblygu'r gweithlu o hyd ar gyfer rhaglenni byrdymor, hyblyg mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth;

- sianelu buddsoddiad at y meysydd lle bydd yn cael yr effaith fwyaf, a pharhau i gydweithio â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod prentisiaethau'n diwallu eu hanghenion.

2.7 Gofynnodd y Gweinidog am farn ynghylch y cynigion sy'n ymwneud â'r Ardoll Brentisiaethau ac ynghylch y papur ategol.

2.8 Diolchodd Ian Price i'r Gweinidog am y papur. Dywedodd fod cynnydd da wedi'i wneud ers yr hydref ac y dylid canmol y dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu. Roedd yn cytuno bod sefydlu tîm cynghori'n gynnig ardderchog, yn ogystal â'r ffaith y byddai sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael eu hystyried.

2.9 Croesawodd Ben Cottam y cyfle i drafod y mater hwn. Dywedodd y byddai wedi ffafrio gweld buddiannau busnesau bach a chanolig yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y gwaith ar yr economi sylfaenol, ond bod sefydlu'r grŵp cynghori yn ddatblygiad cadarnhaol. Dywedodd ei bod yn hollbwysig bod y grŵp cynghori'n cynnwys cynrychiolwyr busnesau bach a chanolig, a

DRAFT

gofynnodd i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn gyson am gynnydd.

2.10 Esboniodd y Gweinidog fod cynllun cyflogadwyedd yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys prentisiaethau a hyfforddiant arall. Bydd hynny'n golygu y bydd gan Gymru ystod ehangach o ddulliau gweithredu na Lloegr. Er enghraifft, bydd y cynllun yn ystyried pobl ddi-waith a phrentisiaethau uwchlaw lefel 3, a bydd hefyd yn cynnal ymyriadau presennol sy'n seiliedig ar waith, ar wahân i brentisiaethau.

2.11 Bu Ian Price yn myfyrio ynghylch yr angen i rannu gwybodaeth am ddatblygiadau â busnesau yng Nghymru sy'n rheoli eu cyllidebau ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau.

2.12 Dywedodd Martin Mansfield pe bai Cymru wedi dilyn y model a gaiff ei weithredu yn Lloegr, y byddai hynny wedi tanseilio'r dull gweithredu yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bwysig iawn sicrhau nad ydym yn colli'r prentisiaethau gorau, er mwyn i bobl allu eu datblygu eu hunain ar ba adeg bynnag yn ystod eu gyrfa.

2.13 Dywedodd Lloyd Powell fod cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant o'r farn bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau o ran prentisiaethau ymhlith athrawon gyrfaoedd mewn ysgolion a mannau eraill. Bydd hynny'n helpu i godi proffil prentisiaethau o'u cymharu ag addysg neu gyflogaeth.

2.14 Diolchodd Janet Church i'r Gweinidog am y drafodaeth agored ynghylch y pwnc hwn ac am y wybodaeth gryno a ddarparwyd. Soniodd Janet am natur gyfnewidiol y farchnad lafur ac am yr angen i 'sganio'r gorwel' er mwyn sicrhau na chawn ein gadael ar ôl. Holodd Janet hefyd sut y gallai'r dull o ymdrin â phrentisiaethau effeithio ar gwmnïau mawr sy'n gweithredu mewn mwy nag un wlad.

2.15 Diolchodd Heather Myers i'r Gweinidog, gan ddweud ei bod yn gefnogol iawn i'r cynigion. Awgrymodd y byddai canllaw i aelodau'n ddefnyddiol, a soniodd hefyd am y broblem sy'n codi o safbwynt cwmnïau sy'n gweithredu mewn mwy nag un o wledydd y DU.

2.16 Rhoddodd y Gweinidog yr ymatebion canlynol i'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau:

- caiff cyngor ynghylch gyrfaoedd, sy'n ymwneud â phrentisiaethau, ei ddarparu i ysgolion yn y Prosbectws Ardal Gyffredin sy'n berthnasol ar hyn o bryd i blant 16 oed, ond yn y dyfodol gellid ei gynnig i ddisgyblion 14 oed; ac

- roedd y Gweinidog wedi cynnal trafodaethau ynghylch y problemau trawsffiniol ac wedi cytuno ar ffordd ymlaen a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r safonau gael eu trosglwyddo.

2.17 Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod wedi siarad â chwmnïau mawr am y newidiadau ac am y ffordd orau o weithredu yn strwythur Ardoll y DU.

DRAFT

2.18 Dywedodd Ian Price fod busnesau mawr yn deall mai treth ar lefel y DU oedd hon. Dywedodd nad oeddent yn disgwyl gallu adennill y tâl llawn a bod y mwyafrif yn sylweddoli y byddai adennill 50% yn ganlyniad da.

2.19 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i bawb am eu barn.

**3. Pontio o ran yr UE – Diweddariad**

3.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod yr eitem hon ar yr agenda yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ers y cyfarfod a gynhaliwyd fis Hydref diwethaf. Yn benodol, roedd rhai datblygiadau o bwys wedi digwydd yr wythnos hon.

3.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai:

- yn amlinellu'n gryno Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef "Diogelu dyfodol Cymru", a lansiwyd ddydd Llun;
- yn siarad yn fyr am ganlyniad gwrandawiad y Goruchaf Lys ddydd Mawrth[1]; ac
- yn gwahodd Mark Drakeford i roi sylwadau ychwanegol ynghylch trafodaethau diweddar â Llywodraeth y DU.

3.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod datganiad polisi manwl Llywodraeth Cymru ynghylch ymadawiad y DU â'r UE wedi cael ei gyhoeddi[2] a bod copïau papur ar gael. Mae'r safbwynt yn y datganiad wedi'i lunio ar y cyd â Phlaid Cymru, felly caiff ei gefnogi gan o leiaf tair o'r pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad.

3.4 Esboniodd fod y papur sydd wedi'i gyhoeddi yn nodi chwe phrif bwynt:

- Y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol – mae Llywodraeth Cymru yn credu bod mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf yn hanfodol i fuddiannau Cymru yn y dyfodol;
- Mudo – dylai hawliau pob un o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru gael eu gwarantu ar unwaith. Bydd angen mudwyr o'r UE ar Gymru o hyd i gynnal ei heconomi yn y sector preifat a gwasanaethau cyhoeddus. Ac eithrio myfyrwyr a'r sawl sy'n gallu eu cynnal eu hunain yn annibynnol, dylai rhyddid i symud fod yn gysylltiedig â chyflogaeth;
- Cyllid a Buddsoddi – mae Cymru ar ei hennill o fod yn aelod o'r UE, ac ar hyn o bryd mae'n cael tua £680 miliwn o gyllid yr UE. Er bod Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid i raddau helaeth ar gyfer prosiectau a gytunwyd cyn 2020, mae'n hanfodol nad yw Cymru ar ei cholled yn y tymor hwy;

[1] https://www.supremecourt.uk/news/article-50-brexit-appeal.html
[2] http://llyw.cymru/newsroom/firstminister/2017/170123-brexit-plan/?lang=cy



DRAFT

- Materion Cyfansoddiadol a Datganoli – mae maint y newid yn gofyn am ddulliau gweithio newydd rhwng gwledydd y DU, mewn ysbryd o bartneriaeth gyfartal a pharch at y setliad datganoli;

- Mesurau Diogelu Cymdeithasol ac Amgylcheddol – yn ystod y 40 mlynedd y mae Cymru wedi bod yn aelod o'r UE, mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth wedi datblygu, sy'n diogelu lles Cymru. Mae'n cynnwys deddfwriaeth amgylcheddol a hawliau i weithwyr. Wrth ymadael â'r UE, byddwn yn mynnu nad yw'r hawliau a'r mesurau diogelu hyn yn cael eu handwyo;

- Trefniadau Pontio – bydd ymadael â'r UE yn broses gymhleth a fydd yn cymryd llawer o amser. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen i Lywodraeth y DU drafod telerau cyfnod pontio er mwyn dileu rhywfaint o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â newid mor fawr.

3.5 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ddyfarniad y Goruchaf Lys, sy'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ofyn am gymeradwyaeth seneddol cyn tanio Erthygl 50. Yna, gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i roi diweddariad i'r Cyngor ynghylch trafodaethau diweddar.

3.6 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ein bod yng nghanol cyfnod o ddatblygiadau pwysig. Dywedodd fod Prif Weinidog Cymru wedi cyfarfod yn ddiweddar ag Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, David Davis AS, a bod pwyntiau allweddol y cyfarfod hwnnw fel a ganlyn:

- roedd Prif Weinidog Cymru wedi pwysleisio mai mynediad rhydd a dirwystr i'r farchnad sengl oedd y brif flaenoriaeth i Gymru;

- roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan mai pwrpas y Bil Diddymu gan Lywodraeth y DU fyddai troi deddfau'r UE yn ddeddfwriaeth y DU;

- roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ati'n gyflym i ofyn am gymeradwyaeth seneddol i danio Erthygl 50; ac

- roedd Prif Weinidog Cymru wedi datgan yn glir iawn ei fod o'r farn nad oedd y trefniadau rhynglywodraethol presennol yn addas mwyach wrth geisio ymdrin â maint y newid cyfansoddiadol a oedd i ddod.

3.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol nad oedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn mynd mor bell ag yr oedd rhai wedi gobeithio, o safbwynt mynnu caniatâd y gweinyddiaethau datganoledig i danio Erthygl 50, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU ar gyfer trafod telerau.

3.8 Cyn gwahodd sylwadau, diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i'r Ffederasiwn Busnesau Bach am ei ymchwil[3] ynghylch beth yr hoffai cwmnïau bach ei gael yn sgil Brexit.

[3] https://www.fsb.org.uk/media-centre/press-releases/small-businesses-speak-out-on-brexit



DRAFT

3.9 Diolchodd Ben Cottam am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru. Amlinellodd yn gryno ganlyniadau ymchwil y Ffederasiwn Busnesau Bach, gan ddweud bod themâu'r ymchwil yn debyg. Roedd prif bwyntiau'r ymchwil fel a ganlyn:

- Mae mynediad hawdd i'r farchnad yn hanfodol i gwmnïau sy'n allforio
- Mae'r perygl o gyrraedd sefyllfa o fod ar 'ymyl dibyn' yn bryder mawr
- Mae cydweithredu a sicrhau eglurder yn hanfodol
- Mae pryder yn dod i'r amlwg ynghylch lefelau tariffau, os a phryd bynnag y cânt eu cyflwyno
- Ceir pryder cynyddol ynghylch gwahaniaethau rheoleiddio ar ôl Brexit
- Rhaid sicrhau bod gweithwyr o'r UE sydd â sgiliau'n cael aros yn y DU ar ôl Brexit
- Mae pawb yn deall y bydd hon yn broses hir.

3.10 Dywedodd Lowri Morgan ei bod yn hanfodol bod llywodraethau datganoledig y DU yn cydweithio â'i gilydd i ddatrys y problemau y gallai'r broses Brexit eu hachosi.

3.11 Croesawodd Martin Mansfield y cydweithio trawsbleidiol sy'n digwydd yng Nghymru yng nghyswllt y Papur Gwyn ac yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â phontio o ran yr UE yn gyffredinol. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod llais Cymru yn cael ei glywed er mwyn i fuddiannau Cymru gael eu diogelu. Dywedodd mai hawliau gweithwyr a dinasyddion yr UE ddylai gael y sylw blaenaf yn y trafodaethau. Roedd yn cytuno na ddylai hawliau gael eu gwanhau ac y dylid osgoi ras i'r gwaelod, a dywedodd y dylai fod gennym yr uchelgais i ymestyn hawliau yn hytrach na'u cynnal yn unig.

3.12 Dywedodd Heather Myers ei bod yn cefnogi'r safbwynt sydd yn y Papur Gwyn ond bod angen mwy o sicrwydd er mwyn i fusnesau allu cynllunio.

3.13 Roedd Ian Price yn cytuno â phwynt Heather a dywedodd fod ei aelodau, oherwydd diffyg eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth y DU, yn bwrw ati eu hunain.

3.14 Dywedodd Ben Cottam fod yr ansicrwydd a'r posibilrwydd o ddiffyg cyllid y tu hwnt i 2020 yn bryder mawr, a gofynnodd i Lywodraeth Cymru beth yr oedd yn ei wneud ynglŷn â'r broblem honno.

3.15 Holodd David Morgan pa bwerau ychwanegol a allai ddod i Lywodraeth Cymru yn dilyn y trafodaethau ynghylch pontio o ran yr UE.

3.16 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i bawb am eu cyfraniadau i'r drafodaeth ac i'r Ffederasiwn Busnesau Bach am ei adroddiad.

DRAFT

3.17 Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol drwy egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y pwyntiau a godwyd gan yr aelodau:

- roedd y Papur Gwyn yn pwysleisio'r angen am broses bontio, a byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso am hynny;

- mynediad rhydd a dirwystr i'r farchnad sengl oedd y brif flaenoriaeth – roedd y Papur Gwyn yn nodi'n glir beth fyddai effaith niweidiol unrhyw gyfyngu ar fynediad;

- roedd yn rhaid i Gymru barhau i fod yn gymdeithas agored a goddefgar;

- roedd yn bwysig diogelu hawliau gweithwyr a dinasyddion ac roedd angen am newid yn y berthynas rhwng pedair gwlad y DU; yn benodol roedd angen mwy o gydraddoldeb rhyngddynt ac roedd angen i fwy o benderfyniadau gael eu gwneud ar y cyd.

3.18 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i bawb am eu cyfraniadau.

**4. Diwygio Llywodraeth Leol**

4.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod llywodraeth leol yn wynebu llawer o heriau, ac nid yn lleiaf yr angen i feithrin mwy o gysondeb a chydnerthedd a gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau. Dywedodd fod angen hefyd i awdurdodau lleol fod yn bartneriaid gweithgar ac effeithiol o safbwynt hybu datblygu economaidd. Gofynnodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gyflwyno'r papur.

4.2 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ddydd Mawrth 31 Ionawr, sy'n benllanw gwaith ymgysylltu a thrafod dwys ag awdurdodau lleol. Esboniodd fod y papur yn egluro'r pum prif broblem sy'n wynebu awdurdodau lleol:

- Heriau ariannol
- Cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion
- Symleiddio a chyflawni gwaith cynllunio gwasanaethau ar raddfa briodol
- Gwerthfawrogi'r gweithlu llywodraeth leol a rhoi cyfleoedd iddo
- Creu model o wasanaethau cyhoeddus darbodus i ddinasyddion.

4.3 Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y papur yn egluro ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan gyllidebau sy'n gostwng a chan alwadau sy'n cynyddu ar wasanaethau – ffordd ymlaen a ddatblygwyd drwy'r broses o drafod ag arweinyddion ac eraill. Mae'r cynigion yn cadw'r 22 o gynghorau lleol a gaiff eu hethol yn ddemocrataidd, ond mae'n darparu ar gyfer gweithio'n rhanbarthol er mwyn cynllunio a chyflawni ystod o swyddogaethau llywodraeth leol. Byddai hynny'n adeiladu ar y trefniadau estynedig sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, ond byddai'n cael ei gyflawni ar sail trefniadau mwy systematig a gorfodol.

DRAFFT

4.4 Mae'r papur yn cynnig y bydd tair o'r swyddogaethau allweddol – datblygu economaidd, trafnidiaeth a defnydd tir – yn cael eu trefnu ar sail y tair ardal sy'n Ddinas-ranbarthau, ac y bydd swyddogaethau eraill yn cael eu trefnu ar sail ardaloedd llai o faint.

4.5 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith am y cyflwyniad i'r papur, gan wahodd yr aelodau i fynegi eu barn.

4.6 Roedd Martin Warren yn cytuno bod yn rhaid i'r cynigion gael eu gyrru yn eu blaen er mwyn lleihau costau a chael gwared ar derfynau artiffisial a oedd yn bodoli ar hyn o bryd. Roedd yn teimlo bod ardal Dinas-ranbarth yn ardal dda i'w defnyddio ond y dylai'r swyddogaethau gynnwys rhai heblaw'r economi, trafnidiaeth a defnydd tir.

4.7 Dywedodd Jean Church ei bod yn gobeithio na fyddai Diwygio Llywodraeth Leol yn creu rhagor o gymhlethdod.

4.8 Dywedodd Ian Price ei fod yn cytuno â'r egwyddor o drefnu rhai swyddogaethau llywodraeth leol ar sail Dinas-ranbarthau, ond gofynnodd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn mesur llwyddiant y newid hwn.

4.9 Croesawodd Ben Cottam yr egwyddor ynghylch cydweithredu gorfodol ac roedd yn hyderus y byddai'n gweithio. Awgrymodd fod angen gweithio ar frandio'r Dinas-ranbarthau.

4.10 Cydnabu Martin Mansfield yr her sy'n deillio o'r ffaith bod galwadau'n cynyddu a bod adnoddau'n prinhau. Roedd y safbwynt cadarn iawn a fabwysiadwyd yn dilyn trafodaeth ystyrlon yn dda, ond roedd yn awyddus i weld y newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflawni'n awr a gweld y ffocws yn symud o strwythur i waith cyflawni.

4.11 Soniodd Heather Myers am yr angen i sicrhau bod diwygio'n hawdd ei ddeall, a soniodd am yr angen iddo ddigwydd mewn modd nad yw'n cymhlethu cydberthnasau nac yn cynyddu cymhlethdod.

4.12 Mynegodd Ifan Glyn bryder y gallai Dinas-ranbarthau sydd â chynlluniau datblygu ar raddfa fwy ei gwneud yn anos i gwmnïau bach ddod o hyd i lwybr drwy'r system.

4.13 Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y pryderon a fynegwyd. Roedd yn ymwybodol o amrywiaeth a maint y newidiadau a oedd yn wynebu'r aelodau. Pwysleisiodd y byddai angen i'r dull gweithredu gael ei ddylunio fel ei fod yn symleiddio prosesau yn hytrach na'u cymhlethu.

## 5. Strategaethau Trawsbynciol

5.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod Symud Cymru Ymlaen[4] yn egluro'r pedair prif thema drawsbynciol:

[4] http://llyw.cymru/about/programme-for-government/?lang=cy

- Ffyniannus a Diogel;
- Iach ac Egnïol;
- Uchelgais a Dysgu; ac
- Unedig a Chysylltiedig.

5.2 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod gwaith ar y gweill erbyn hyn i ddatblygu strategaethau trawsbynciol a fyddai'n hybu themâu Symud Cymru Ymlaen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn arwain y gwaith ar y strategaeth Ffyniannus a Diogel.

5.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi cael trafodaeth yn ddiweddar â Llywodraeth y DU ynghylch Strategaeth Ddiwydiannol y DU ac ynghylch cyfleoedd i weithio'n adeiladol ar feysydd a fydd o fantais i fusnes a'r economi yng Nghymru.

5.4 Dywedodd David Morgan fod trafod â Llywodraeth y DU yn hanfodol yng nghyswllt meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin.

5.5 Croesawodd Ben Cottam y gwaith strategol. Awgrymodd y dylai dull gweithredu Llywodraeth Cymru fabwysiadu egwyddorion sy'n perthyn i Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

5.6 Dywedodd Nick Ireland fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n arloesol wrth symud yr agenda ynghylch swyddi gwell yn nes at adref yn ei blaen, ac roedd yn cytuno bod gweithio'n ynysig wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Pwysleisiodd rôl TUC Cymru fel rhanddeiliad pwysig yn y broses hon.

5.7 Dywedodd Martin Warren fod y dull trawsbynciol hwn o weithredu'n ddull cadarnhaol iawn a fyddai, gobeithio, yn cydgysylltu gweithgareddau gwahanol adrannau'n effeithiol â'i gilydd.

5.8 Croesawodd Jean Church lefel y cydweithredu a gynigir a'r ffaith bod newidiadau o ran ffordd o fyw yn y gymdeithas yn cael eu cydnabod.

5.9 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i'r aelodau am eu cyfraniadau. Wrth grynhoi'r trafodaethau nododd bwysigrwydd adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, yn enwedig o safbwynt datblygiadau trawsffiniol. Yn ogystal, cydnabu fod agweddau ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU yn effeithio ar feysydd datganoledig, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgysylltu'n adeiladol.

DRAFT

**6. Trefniadau Newydd ar gyfer y Cyngor**

6.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi gwaith y Cyngor yn fawr. Roedd y pwys y mae Gweinidogion yn ei roi ar fynychu'r Cyngor yn bersonol i glywed barn yr aelodau'n uniongyrchol yn tystio i'r ffaith honno.

6.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod y Cyngor, yn ei farn ef, yn cyflawni tair rôl allweddol:

- rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru a dylanwadu arno;

- sicrhau budd i Lywodraeth Cymru drwy'r her a'r cyngor a geir; a

- cynnig ffordd i Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â'r aelodau am y datblygiadau diweddaraf.

6.3 Yn dilyn trafodaethau a oedd wedi digwydd yn y Cyngor â'r aelodau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei bod yn bryd yn awr i drefniadau gweithio'r Cyngor gael eu diweddaru a'u cryfhau. Mae'r newidiadau arfaethedig, sy'n adlewyrchu barn y Gweithgor, yn cynnwys:

- newid yr enw o Gyngor Adnewyddu'r Economi i Gyngor Datblygu'r Economi;

- sicrhau mwy o ymgysylltu â'r polisi cyflogaeth a sgiliau ôl-16, drwy wahodd Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru i fod yn aelod o'r Cyngor;

- trefnu bod y Gweithgor Gweithredol yn rhoi'r gorau i'w ddyletswyddau;

- creu Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol er mwyn galluogi gwaith ymgysylltu mwy penodol a rheolaidd â Gweinidogion.

6.4 Dywedodd Julie Cook ei bod yn falch bod eglurder yn awr ynghylch y strwythurau newydd, a chymeradwyodd y newidiadau.

6.5 Dywedodd Ben Cottam ei fod yntau yn cymeradwyo'r newidiadau, a diolchodd i Tracey Burke am yr holl waith caled a oedd yn sail i'r datblygiad hwn. Dywedodd ei fod yn cydnabod nad oedd gweithio gyda grŵp amrywiol o gynrychiolwyr megis y Cyngor yn dasg hawdd, a bod gwaith da wedi'i gyflawni i sicrhau consensws.

**7 (7a) Nodiadau a (7b) Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016**

7.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref wedi'u dosbarthu. Gofynnwyd i'r aelodau am sylwadau a gofynnwyd iddynt gytuno bod y nodiadau'n gywir.

7.2 Cytunwyd bod nodiadau'r cyfarfod yn gywir.

7.3 Grid camau gweithredu

- Mae cam gweithredu 4 wedi'i gwblhau. Y cam gweithredu oedd galw cyfarfod i drafod trefniadau newydd ar gyfer y Cyngor a phenderfynu yn eu cylch. Roedd y cyfarfod wedi'i gynnal ac roedd trefniadau newydd wedi'u cynnig. Roedd y trefniadau newydd wedi cael eu trafod a'u cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor heddiw (eitem 6).

DRAFT

**8 Unrhyw fater arall**

8.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a oedd unrhyw fater arall. Ni chafodd unrhyw fater arall ei godi.

8.2 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn ymddeol cyn bo hir ac mai'r cyfarfod hwn o'r Cyngor fyddai ei gyfarfod olaf. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Ysgrifennydd Parhaol am ei gefnogaeth.

8.3 Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

**9 Diwedd**

DRAFFT